DATGANIAD POLISI AMGYLCHEDD

Mae Bwrdd, Tîm Rheoli Gweithredol, a'r Uwch Dim Rheoli a Staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw weithgareddau a gaiff eu cynnal ar unrhyw un o'n safleoedd, naill ai gennym ni neu gan rai yn gweithio ar ein rhan, yn effeithio yn negyddol ar yr amgylchedd. Byddwn yn gwneud hyn drwy roi system rheoli amgylcheddol ar waith sy'n cydymffurfio â ISO14001: safon amgylcheddol 2015, a phob deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol.

Yn benodol, byddwn yn gweithio tuag at gylch o welliant parhaus a lleihau ein hôl troed carbon trwy:

- Creu a rhoi amcanion cyraeddadwy ar waith er mwyn lleihau defnydd o ynni, dŵr ac adnoddau
- Sicrhau bod ymwybyddiaeth briodol o'n cyfrifoldeb amgylcheddol yn cael ei roi i staff er mwyn annog diogelu'r amgylchedd
- Sicrhau bod effaith amgylcheddol posib yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau allweddol gwneud penderfyniadau busnes.
- Diogelu a mwyhau bioamrywiaeth ar ein tir trwy fabwysiadu arferion amgylcheddol gorau
- Lle mae gwaith yn anorfod yn effeithio ar yr amgylchedd, byddwn yn gweithredu cyn belled ag sy'n bosib yn ymarferol er mwyn adnabod risgiau ac i roi mesurau rheoli ar waith.
- Lle bo'n briodol, datblygu ein gwasanaethau i atal llygredd a lleihau difrod i'r amgylchedd.
- Hybu a chymhwyso egwyddorion hierarchaeth gwastraff i bob gweithgaredd busnes er mwyn uchafu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu ac ail ddefnyddio.
- Cyfathrebu ac annog tenantiaid a phreswylwyr i ddylunio a gwella eu hamgylchedd drwy leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a mabwysiadu arfer da ar faterion fel arbed ynni ac atal gwastraff, ail ddefnyddio ac ailgylchu.
- Mabwysiadu gweithdrefnau caffael sy'n annog cyflenwyr i leihau allyriadau carbon ac ystyried eu heffaith.
- Sefydlu Cynllun Teithio i leihau'r effaith ar yr amgylchedd oherwydd teithio busnes drwy;
  - Annog gweithwyr i leihau teithio diangen ar gyfer y busnes ac i rannu cerbydau pan fo hynny'n bosib
  - Sicrhau, lle bo'n bosib, bod lleoliadau hyfforddi a chyfarfodydd yn cael eu dewis er mwyn lleihau'r teithio gan weithwyr ac aelodau Bwrdd a bod posib cyrraedd yno ar gludiant cyhoeddus.
  - Buddsoddi mewn cyfleusterau fideo-gynhadledd i leihau teithio i gyfarfodydd lle bo'n briodol.
- Monitro a gwella'r System Reoli Amgylcheddol yn barhaus drwy ein rhaglenni archwilio mewnol ac adolygiadau uwch reolwyr er mwyn mwyhau perfformiad amgylcheddol y sefydliad.

I sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion yn llwyddiannus byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr ac yn ymgynghori gyda'n cwsmeriaid ar fesurau gwella'r amgylchedd yr ydym yn eu sefydlu i atal llygredd a gwastraff.

Prif Weithredwr

Llofnod	Dyddiad
	01/07/2018

Hyrwyddwr IDAA y Bwrdd

Llofnod	Dyddiad
	01/07/2018